Rhif: **WG24843**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cynnig ar gyfer cofrestru gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

Dyddiad cyhoeddi: **1 Ebrill 2015**
Camau i’w cymryd: Ymatebion erbyn **1 Gorffennaf 2015**

# Cynnig ar gyfer cofrestru gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn gwahodd barn ynglŷn â'r diffiniad arfaethedig o weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion y mae'n ofynnol iddynt gofrestru. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **1 Gorffennaf 2015** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn www.wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy<br><br>Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010 |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Nathan Huish<br>Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk<br><br>Ffôn: 029 2082 3039 |

© Hawlfraint y Goron 2015
WG24843

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

**Crynodeb** **2**
**1. Y cefndir** **3**
**2. Nodau Cyngor y Gweithlu Addysg** **4**
**3. Cyflwyniad** **5**
**4. Cofrestru** **6**
**5. Y cynnig sydd dan ystyriaeth** **7**
**6. Y disgrifiad o weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion fel y mae yn Neddf Addysg (Cymru) 2014 a'r diffiniad arfaethedig ar gyfer eu cofrestru** **8**
**7. Disgrifiad o weithwyr cymorth dysgu mewn AB fel y mae yn Neddf Addysg (Cymru) 2014** **12**
**8. Sut i roi sylwadau ynghylch y cynnig hwn** **13**

# Crynodeb

Roedd Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Deddf 2014) yn ad-drefnu ac yn ailenwi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC); yn ymestyn cylch gorchwyl y corff; a chyfansoddiad ei aelodaeth er mwyn iddo droi'n Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Digwyddodd hyn ar 1 Ebrill 2015, sef yr adeg hefyd pryd yr estynnwyd y gofyniad am gofrestriad proffesiynol i gynnwys athrawon Addysg Bellach (AB), yn ogystal ag athrawon ysgol.

Y cynnig yw fod y gofyniad am gofrestriad proffesiynol yn cael ei ymestyn o Ebrill 2016 ymlaen i gynnwys staff cymorth dysgu. Golyga hyn y bydd yn rhaid i berson gofrestru gyda'r Cyngor er mwyn gweithio fel gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol neu leoliad AB yng Nghymru.

O ran gweithwyr cymorth dysgu mewn AB, mae adran 16 o Ddeddf 2014, a thabl 1 o Atodlen 2 iddi, yn nodi'r diffiniad o'r personau sy'n dod o fewn y term 'gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach'. Nid yw Deddf 2014 yn diffinio ystyr gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion. Yn hytrach, mae Deddf 2014 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu na chaiff gwasanaethau penodedig eu darparu gan berson mewn ysgol oni bai bod y person hwnnw wedi bodloni'r gofynion a nodir mewn rheoliadau a wnaed dan adran 14(1)(a)(ii).

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau ynghylch yr ymarferwyr y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor ar sail y gwasanaethau penodedig a ddarperir gan bersonau o'r fath mewn ysgol neu ar gyfer ysgol, ac yn yr amgylchiadau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn.

# 1. Y cefndir

1.1 Mae Deddf 2014 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i athrawon ysgol, athrawon AB, gweithwyr cymorth dysgu mewn AB, a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, gofrestru gyda'r Cyngor. O 1 Ebrill 2015 ymlaen, rhaid i bersonau fod wedi cofrestru eisoes gyda'r Cyngor er mwyn gweithio fel athrawon ysgol mewn ysgol a gynhelir neu fel athrawon AB yng Nghymru.

1.2 Rhaid i'r Cyngor gael y sgiliau, yr wybodaeth a'r arbenigedd i gefnogi'r gweithlu addysg yn ehangach os yw am fod yn bartner allweddol wrth sicrhau gwell cydlyniant a chefnogi'r agenda i hybu safonau mewn addysgu a dysgu. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y system gofrestru bresennol ar gyfer athrawon yn parhau'n ddi-dor. Mae addysgu a dysgu effeithiol yn ganolog i ddiwygio addysg yng Nghymru. Mae safon ymarferwyr addysgu a'r rheini sy'n eu cefnogi yn ffactor allweddol wrth bennu ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac, yn y pen draw, mae deilliannau'r dysgwyr yn ddibynnol ar hyn.

1.3 Mae'r opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru, diolch i bolisïau megis Llwybrau Dysgu 14-19 a chydweithredu rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16, wedi arwain at gydweithio agosach rhwng ymarferwyr mewn gwahanol sectorau. Bu cynnydd sydyn hefyd yn nifer y bobl sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, gyda chynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio mewn partneriaeth ag athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm. Golyga hyn fod strwythur a chyfansoddiad y gweithlu addysg wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

1.4 Mae'n hanfodol fod yr amrywiol ymarferwyr hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol a'u bod yn gallu manteisio ar gymwysterau, cefnogaeth a datblygiad sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae proffesiynoldeb, addasrwydd a safonau ymddygiad, hyfforddiant a datblygiad aelodau'r gweithlu addysg yn allweddol i'w lwyddiant. Rydym am wneud yn siŵr ein bod yn cydnabod rôl pob un sy'n gweithio i gefnogi addysgu a dysgu fel rhan o un gweithlu addysg cydlynol yng Nghymru.

## 2. Nodau Cyngor y Gweithlu Addysg

Dyma nodau Cyngor y Gweithlu Addysg:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru

- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon ac aelodau eraill o'r gweithlu addysg sy'n rhoi cymorth i addysgu a dysgu

- cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd; a diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a gofalwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

# 3. Cyflwyniad

3.1 Ar hyn o bryd, mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i sefydlu a chadw cofrestr o athrawon ysgol ac athrawon AB. Mae cofrestru'n ofynnol i'r holl athrawon sydd eisiau gweithio fel athrawon mewn ysgol a gynhelir neu sefydliadau AB yng Nghymru, gan gynnwys athrawon peripatetig a'r rhai mewn swyddi asiantaeth, swyddi cyflenwi neu swyddi dros dro. Mae'n ofynnol i bob cyflogwr sicrhau mai dim ond personau sydd wedi cofrestru gyda Cyngor y bydd yn eu cyflogi i weithio fel athrawon.

3.2 Ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion gofrestru gydag unrhyw gorff cofrestru, ond mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 yn gwneud rhywfaint o ddarpariaeth ynglŷn â phersonau nad ydynt yn athrawon cymwysedig, a allai gyflawni gwaith penodedig er mwyn cynorthwyo neu gefnogi gwaith athrawon cymwysedig.

## 4. Cofrestru

4.1 Mae Deddf 2014 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ymestyn y cofrestriad gyda'r Cyngor i grŵp ehangach o ymarferwyr.

4.2 Un o nodweddion allweddol llawer o broffesiynau yw'r gofyniad i gofrestru gyda chorff rheoleiddio proffesiynol sy'n gosod ac yn cynnal safonau proffesiynol, gan gadw hyder y cyhoedd a dangos cyd-ymrwymiad i broffesiynoldeb.

4.3 Manteision cofrestru yw bod y rhai a gofrestrir yn cael eu hystyried yn:

- aelodau credadwy o'r gweithlu, gyda statws proffesiynol;
- gweithwyr sy'n cyrraedd y safonau penodol ar gyfer cael mynediad i'r proffesiwn hwnnw a pharhau'n aelodau ohono; ac
- pobl sy'n addas i fod yn aelod o'r proffesiwn – gan gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

## 5. Y cynnig sydd dan ystyriaeth

5.1 Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch y diffiniad arfaethedig o'r ymarferwyr sy'n gweithio o fewn ysgol a gynhelir ac a fydd yn dod o fewn y gofyniad i gofrestru dan y categori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgolion.

5.2 Mae strwythur a chyfansoddiad y gweithlu addysg wedi newid yn gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n hanfodol fod yr amrywiol ymarferwyr hyn yn gweithio gyda'i gilydd a'u bod yn gallu manteisio ar gymwysterau, cefnogaeth a datblygiad sydd wedi'u cynllunio'n dda.

5.3 Mae'r Gweinidog yn cydnabod bod y categori hwn o ymarferwyr yn gallu chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r modd y darperir addysgu o safon a chwricwlwm modern. Mae'n bwysig i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, a'r dysgwyr y maent yn cynorthwyo i ddarparu eu haddysg, eu bod yn cael eu cydnabod yn weithwyr proffesiynol, ochr yn ochr â'r athrawon y maent yn eu cefnogi o ddydd i ddydd.

5.4 Mae'n hollbwysig i'r holl ymarferwyr addysg hyn sy'n rhoi cymorth yn uniongyrchol i addysgu a dysgu fod yn rhan o gorff proffesiynol, sy'n gosod ac yn cynnal safonau proffesiynol. Bydd gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion yn elwa ar gefnogaeth a chydnabyddiaeth corff proffesiynol sy'n cynnal safonau proffesiynol ac yn monitro cofrestriad, cymwysterau a datblygiad proffesiynol ei aelodau. Bydd y dull hwn yn cynnal ac yn gwella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru.

5.5 Mae arnom angen symud i ffwrdd oddi wrth system lle y mae gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion yn aml ym mhen draw'r ciw ar gyfer cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae Deddf 2014 yn galluogi inni gychwyn mynd i'r afael â'r materion hirsefydlog hyn. Gall gweithwyr cymorth dysgu ddisgwyl cael lle yn y trefniadau priodol ar gyfer arfarnu a dysgu proffesiynol, yn debyg i'r athrawon y maent yn cydweithio â hwy.

5.6 Rydym yn adeiladu ar lwyddiant y trefniadau sydd eisoes yn eu lle ar gyfer athrawon mewn ysgolion; ac i wneud hynny'n effeithiol ar gyfer gweithlu addysg yn ehangach, mae arnom angen Cyngor cryf ac effeithiol sy'n adlewyrchu'n gywir yr holl gategorïau cofrestredig.

5.7 Y cynnig yw y bydd yn ofynnol i'r categorïau proffesiynau canlynol gofrestru gyda'r Cyngor o'r dyddiad a ganlyn:

O Ebrill 2016:

Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol, a
Gweithwyr cymorth dysgu mewn AB

# 6. Y disgrifiad o weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion fel y mae yn Neddf Addysg (Cymru) 2014 a'r diffiniad arfaethedig ar gyfer eu cofrestru

6.1 Mae atodlen 2 i Ddeddf 2014 yn darparu disgrifiad o weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol:

*"person sy'n bodloni'r gofynion a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 14(1)(a)(ii) ac sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) unrhyw wasanaethau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran honno mewn ysgol".*

6.2 Felly, bydd y rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru dan adran 14(1)(a)(ii) o Ddeddf 2014 yn nodi'r gofynion ar gyfer bod yn weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol (h.y. diffiniad llawn y rôl honno) a'r gwasanaethau na fydd caniatâd gan y personau i'w darparu oni bai eu bod wedi cofrestru yn y categori cofrestriad hwnnw gyda'r Cyngor.

6.3 Nid yw'r rhestr o ddarparwyr gwasanaethau a nodir dan baragraffau 6.5 a 6.12 yn hollgynhwysfawr, ac maent yno dim ond i gynorthwyo a chyfarwyddo ymatebwyr i adnabod y mathau o ymarferwyr a allai ddod o fewn y diffiniad o weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol (fel y nodir ym mharagraff 6.13); a'r rhai na fydd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor.

6.4 Bydd y Cyngor yn chwarae rhan allweddol ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru wrth ymgysylltu ag ysgolion, cyflogeion a'r undebau i adnabod y darparwyr gwasanaethau y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru, a hynny cyn 1 Ebrill 2016.

6.5 Bydd angen inni ystyried y rôl y bydd ymarferwyr yn ei chyflawni mewn lleoliad penodol, oherwydd yn y rhan fwyaf o achosion defnyddir amryw o deitlau swyddi i ddisgrifio rhywun sy'n cyflawni'r un rôl. Gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yw'r term a ddefnyddir yn Neddf 2014 i ddisgrifio teitl/rôl yr unigolion hyn sy'n rhoi cymorth i athrawon. Gallai'r rhain gynnwys hefyd:

- cynorthwyydd addysgu;
- cynorthwywyr addysgu lefel uwch;
- cymhorthydd dosbarth;
- cynorthwyydd cymorth dysgu;
- cynorthwyydd anghenion arbennig;
- cynorthwyydd anghenion ychwanegol;
- cynorthwywyr cymorth bugeiliol/lles;
- cynorthwyydd cymorth dwyieithog;
- cynorthwyydd cymorth;
- hyfforddwyr;
- goruchwyliwr llanw;
- cynorthwywydd cyfnod sylfaen;
- technegydd; ac
- anogwyr dysgu

(Ar gyfer egluro yn unig y mae'r rhestr hon.)

6.6 Er bod nifer o deitlau yn cael eu defnyddio, mae'r unigolion hyn oll yn cyflawni gweithgareddau penodedig yn ôl disgresiwn ac o dan gyfarwyddyd person penodedig arall (e.e. athro/pennaeth) er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu amrywiaeth o weithgareddau dysgu i blant a phobl ifanc.

6.7 Efallai mai rôl yr ymarferydd yw cefnogi athrawon a helpu plant gyda'u datblygiad addysgol a chymdeithasol, a hynny yn y dosbarth a'r tu allan. Bydd eu hunion swydd yn dibynnu ar yr ysgol ac oedran y plant.

Gall y rôl gynnwys:

- cael y dosbarth yn barod ar gyfer gwersi;
- gwrando ar blant yn darllen, darllen iddynt neu adrodd storïau iddynt;
- helpu plant sydd angen cymorth ychwanegol i gwblhau tasgau;
- helpu athrawon i gynllunio gweithgareddau dysgu a chwblhau cofnodion;
- rhoi cymorth i athrawon reoli ymddygiad y dosbarth;
- goruchwylio gweithgareddau grŵp;
- gofalu am blant sy'n bryderus neu wedi cael damwain;
- rhoi deunyddiau a chyfarpar i gadw ar ôl gwersi;
- helpu gyda thripiau a digwyddiadau chwaraeon;
- cymryd rhan mewn hyfforddiant;
- cyflawni dyletswyddau gweinyddol.

6.8 Caiff yr ymarferwyr hyn hefyd roi cymorth i blant ag anghenion penodol, gan weithio gyda nhw yn unigol neu mewn grwpiau bach. Mewn rhai ysgolion, efallai y bydd gennych arbenigedd, megis llythrennedd, rhifedd neu anghenion addysgol arbennig (AAA). Os ydych yn ddwyieithog, efallai y byddwch yn gwneud mwy o waith gyda phlant nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

6.9 Ar lefel uwchradd, mae ymarferwyr yn debygol o ganolbwyntio ar weithio gydag unigolion a grwpiau bach; ac yn dibynnu ar y pwnc, efallai y byddant yn cynorthwyo gydag agweddau ymarferol ar wersi, er enghraifft mewn gwyddoniaeth.

6.10 Categori arall o ymarferwyr y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru yw'r rhai sy'n dod dan deitl swydd Cynorthwywydd Addysgu Lefel Uwch, ac efallai y bydd mwy o gyfrifoldeb ganddynt hwy. Gallai hyn gynnwys:

- gweithio gydag athrawon i roi cymorth i weithgareddau dysgu;
- helpu i gynllunio gwersi a pharatoi deunyddiau addysgu;
- bod yn gynorthwyydd arbenigol ar gyfer pynciau penodol;
- arwain dosbarthiadau o dan gyfarwyddyd yr athro, a
- goruchwylio staff cymorth eraill.

Efallai y byddant hefyd yn asesu cofnodion ac adroddiadau ar gynnydd y dysgwyr y maent yn gweithio gyda hwy.

6.11 Y nod allweddol yw sicrhau ein bod yn ymdrin â phob ymarferwr sy'n cyflawni gwaith penodedig mewn ysgol wrth roi cymorth i addysgu a dysgu.

6.12 Byddai'r ymarferwyr hynny na fydd yn ofynnol iddynt gofrestru, oherwydd nad ydynt yn rhoi cymorth uniongyrchol i'r gwaith a ddiffinir fel gweithgareddau penodedig, yn cynnwys:

- gofalwyr;
- cynghorydd gyrfaoedd;
- seicolegydd addysg;
- nyrs ysgol;
- staff gweinyddol;
- staff arlwyo;
- swyddog presenoldeb a chynhwysiant;
- goruchwylwyr amser cinio;
- goruchwylwyr clwb brecwast (a fydd yn cael eu talu);
- rheolwr cyllid;
- rheolwr data;
- y rheini sy'n gweithio mewn rhinwedd wirfoddol megis cynorthwywyr darllen gwirfoddol ac unigolion sy'n rhedeg clybiau ar ôl ysgol ar sail ddielw (h.y. nid cwmni masnachol).

(I ddibenion egluro yn unig y mae'r rhestr hon.)

6.13 Cynigir bod y gofyniad i gofrestru yn dod i ran ymarferwyr sy'n cyflawni un neu ragor o weithgareddau penodedig yn yr amgylchiadau sydd yn y diffiniad arfaethedig fel y nodir isod:

*"(1) Ystyr gweithwyr cymorth dysgu yw personau ac eithrio athrawon sy'n darparu'r gwasanaethau canlynol neu'n cefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau canlynol gan athrawon mewn ysgol a gynhelir -*

*(a) cynllunio a pharatoi gwersi a chyrsiau astudio ar gyfer disgyblion;*

*(b) darparu gwersi i ddisgyblion;*

*(c) asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion; ac*

*(ch) adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.*

*(2) Ym mharagraffau (1)(b) mae "darparu" yn cynnwys darparu drwy ddysgu o bell neu dechnegau â chymorth cyfrifiadur."*

*(3) Ystyrir bod person yn darparu'r gwasanaethau sydd ym mharagraff (1) yn yr amgylchiadau a ganlyn-*

*(a) mae'n darparu gwasanaethau gyda chyswllt uniongyrchol gyda'r dysgwyr i roi cymorth neu gefnogaeth i waith athrawon ysgol neu athrawon enwebedig yn yr ysgol;*

*(b) mae'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd a goruchwyliaeth y cyfryw athrawon ysgol neu athrawon penodedig yn unol â threfniadau a wneir gan bennaeth yr ysgol; ac*

*(c) mae'r pennaeth wedi ei fodloni bod ganddo/ganddi y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad sy'n ofynnol er mwyn cyflawni gwaith a bennir ym mharagraff (1).*

*(4) Wrth benderfynu a oes gan berson y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad sy'n ofynnol er mwyn cyflawni gwaith a bennir ym mharagraff (1) mewn ysgol, rhaid i benaethiaid roi sylw i—*

*(a) y safonau ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch, neu ganllawiau ynghylch y cymwysterau ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu a materion eraill o'r fath y gall Gweinidogion Cymru eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd; a*

*(b) y canllawiau ar gyfer materion contractiol sy'n ymwneud â gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion y gall unrhyw awdurdod lleol neu gyflogwr arall eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd."*

6.14 Bydd yn ofynnol i unrhyw ymarferydd sydd o fewn cwmpas y diffiniad hwn gofrestru fel gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol. Wrth gyflawni ei rôl, bydd yn cael ei dalu a'i gyflogi gan naill ai'r ysgol, yr awdurdod lleol neu gontractwr (asiantaeth gyflenwi).

## 7. Disgrifiad o weithwyr cymorth dysgu mewn AB fel y mae yn Neddf Addysg (Cymru) 2014

7.1 O ran gweithwyr cymorth dysgu mewn AB, nid oes unrhyw ofyniad ar Lywodraeth Cymru i wneud rheoliadau gan fod Deddf 2014 yn disgrifio'r gwasanaethau y gall y categori hwn o weithwyr cofrestredig eu cyflawni o dan adran 16(2).

7.2 Mae atodlen 2 i Ddeddf 2014 yn darparu disgrifiad o weithiwr cymorth dysgu mewn AB, sef:

*"person, ac eithrio athro neu athrawes addysg bellach, sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu), yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau a ddisgrifir yn adran 16(2) mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru"*

7.3 Yn yr un modd â gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, bydd y Cyngor yn chwarae rhan allweddol ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru wrth ymgysylltu â sefydliadau AB, gweithwyr a'r undebau i adnabod y darparwyr gwasanaethau y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru, a hynny cyn Ebrill 2016.

## 8. Sut i roi sylwadau ynghylch y cynnig hwn

8.1 Ceir cwestiynau penodol yn y ffurflen ymateb, a gwahoddir chi i ddarparu atebion i'r cwestiynau hyn neu roi sylwadau mwy cyffredinol, naill ai yn ysgrifenedig neu mewn print, yn electronig neu ar ffurf copi caled i'r cyfeiriad a nodir ar ddechrau'r ddogfen hon.